
# Canllaw Gosod Llwybr Byr Bwrdd Gwaith




Gwnewch hi'n haws i ddefnyddwyr ddod o hyd i wefan Access to Research ac ychwanegwch lwybr byr logo ar fwrdd gwaith cyfrifiadur eich llyfrgell.

## Creu eich Llwybr Byr Bwrdd Gwaith

01 'Adferwch' ('Restore') eich porwr gwe fel bod y porwr a'ch bwrdd gwaith yn weladwy.

02 Unwaith y byddwch ar www.accesstoresearch.org.uk, llusgwch a gollyngwch yr eicon tudalen ar ochr chwith y bar cyfeiriad ar y bwrdd gwaith (os ydych yn defnyddio Firefox, llusgwch a gollyngwch yr URL ei hun).

03 Ar ôl creu'r llwybr byr, ailenwch hwn a dilynwch y cyfarwyddiadau isod.

## Atodi'r Llwybr Byr i'r Logo

01 Symudwch y ffeil "ATR-Desktop-Icon.ico" i leoliad sy'n hygyrch i'r weithfan (i'r ddisg galed yn ddelfrydol).

02 De-gliciwch y llwybr byr a chliciwch ar 'priodweddau' ('properties').

03 Cliciwch 'newid eicon' ('change icon'),'pori' ('browse'), yna dewiswch y ffeil eicon rydych newydd ei chadw a dewiswch 'iawn' ('ok').

Sylwch, os gwelwch yn dda, efallai y bydd angen i chi fewngofnodi gyda chaniatâd y gweinyddwr er mwyn gosod llwybrau byr.

